



1 Ebrill 2020

Annwyl Prif Weithredwr yr Awdurdod Lleol,

Coronafeirws (COVID-19)

Fel gwasanaeth hanfodol, mae Swyddfa'r Post yn gweithio'n galed i ofalu bod ein cwsmeriaid, yn enwedig rhai agored i niwed a'r oedrannus, yn medru parhau i gyrraedd gwasanaethau tra'n diogelu eu hiechyd a'u lles, a hefyd iechyd a lles postfeistri a chydweithwyr.

Cefnogi postfeistri a chadw canghennau ar agor

Mae gan Swyddfa'r Post rôl ganolog i'w chwarae o ran helpu pobl i gyrraedd arian, budd-daliadau cymdeithasol a gwasanaethau hanfodol gan gynnwys post a thalu biliau. Rwyf yn hynod falch o'n postfeistri ac o staff ein canghennau am eu hymroddiad i wasanaethu cwsmeriaid a chadw'r rhwydwaith manwerthu mwyaf yn y DU ar agor ar gyfer busnes yn ystod y cyfnod anodd hwn. Mae'r sefyllfa parthed y pandemig coronafeirws yn newid yn gyflym ac mae'n anochel y bydd effaith andwyol ar wasanaethau. Nid yw postfeistri yn ddiogel rhag y feirws hwn ac mae'n ddyletswydd arnom i'w diogelu.

Canllawiau diweddaraf a chyflenwadau

Dynodwyd Swyddfeydd Post yn wasanaeth hanfodol gan y Llywodraeth a bydd canghennau yn dal i fod ar agor tra bo hynny'n bosibl.

Rydym wedi rhoi ein canllawiau diweddaraf am olchi dwylo a hylendid i bob un o'n postfeistri er mwyn i fusnes fedru parhau. Rydym yn gweithio'n agos gyda'r Llywodraeth i sicrhau cyflenwad o hylif glanhau dwylo a menig. Fodd bynnag, mae amseroedd arwain hir ar gyfer y cynhyrchion hyn o gofio'r galw sydd amdanynt mewn ysbytai a mannau eraill. Yn y cyfamser, rydym wedi darparu arian i bob cangen er mwyn iddynt fedru prynu hylif glanhau dwylo'n lleol.

At hyn, yn ystod y dyddiau a'r wythnosau sydd o'n blaenau, byddwn hefyd yn dosbarthu a gosod sgriniau Perspex mewn canghennau ar draws y rhwydwaith. Rhoddwyd arwyddion mewnol i bob postfeistr hefyd i annog cwsmeriaid i ddilyn canllawiau'r Llywodraeth am gadw dau fetr oddi wrth ei gilydd tra yn y gangen.

Sicrhau cyflogau

Fel gweithwyr allweddol, mae postfeistri annibynnol a'u staff yn parhau i gadw eu canghennau ar agor i gynnig gwasanaethau hanfodol, yn enwedig i bobl agored i niwed a'r oedrannus, er gwaetha'r gostyngiad cyffredinol mewn gweithreddiadau a refeniw.

Mae Swyddfa'r Post yn gwarantu y bydd pob postfeistr annibynnol yn derbyn 100% o'u tâl ym mis Ebrill a 90% ym mis Mai. Bydd wyth mil o Swyddfeydd Post annibynnol yn elwa o'r trefniant hwn a gaiff ei adolygu os bydd y cyngor i'r cyhoedd i aros gartref yn parhau.

Mae gwarantu incwm fel hyn yn cefnogi Postfeistri am eu hymroddiad a'u gwaith caled o ran gofalu y gall rhai o'r bobl sydd fwyaf agored i niwed yn y wlad yn elwa o gael gwasanaethau hanfodol. Gwneir hyn pa un a fydd canghennau ar agor neu beidio, neu os byddant wedi gostwng eu horiau agor, oherwydd ein bod ni'n cydnabod bod rhai o'n canghennau wedi gorfod cau am resymau sydd y tu hwnt i'w rheolaeth, fel hunanynysu neu salwch.

Cyrraedd arian

Mae gennym rôl ganolog i'w chwarae o ran galluogi'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas i gyrraedd eu harian. Trwy ein cytundeb Fframwaith Bancio gyda holl fanciau'r DU, a thrwy'r rhwydwaith o ganghennau sydd gennym ledled y wlad, rydym yn medru gwneud hyn mewn ffordd na all unrhyw sefydliad arall.

Fodd bynnag, yn ystod yr argyfwng hwn, rydym yn sylweddoli na fydd rhai cwsmeriaid yn medru gadael eu cartrefi ac mae'n bosibl na fyddant yn medru cyrraedd eu teulu a'u ffrindiau. Rydym yn gweithio gyda nifer o fanciau'r stryd fawr a'r Llywodraeth i ddarganfod ffordd o oresgyn hyn ac rydym yn ffyddiog y byddwn yn medru datgan bod gennym ateb yn ystod yr wythnos i ddod. Rydym yn gwybod y bydd hyn yn gymorth hanfodol i lawer o bobl sydd wedi eu hynysu ac sy'n dibynnu ar gael arian i dalu am nwyddau a gwasanaethau ac rydym yn gweithio ddydd a nos i sefydlu gwasanaethau newydd.

Cyfrif Cerdyn Swyddfa'r Post a ddarperir ar ran yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP)

Ar ran cwsmeriaid Cyfrif Cerdyn Swyddfa'r Post (POca), rydym yn cysylltu'n gyson â DWP am y ffordd orau o gefnogi'r cwsmeriaid hyn sydd, yn aml, ymhlith y mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.

Nid effeithir ar daliadau a wneir gan adrannau'r llywodraeth i gyfrifon POca. Ar gyfer pobl na fedrant fynd i Swyddfa Bost i godi arian rydym wedi sefydlu prosesau sy'n caniatáu i rywun yr ymddiriedir ynddo/i gael ei ychwanegu at gyfrif deiliad y cerdyn a fydd yn eu galluogi i godi arian o'u cownter Swyddfa Bost lleol neu beiriant arian Swyddfa'r Post ar eu rhan. Rydym yn gweithio'n galed i wella'r broses hon fel bod cwsmeriaid yn medru sefydlu hyn heb fod eisiau iddynt fentro allan i ymweld â Swyddfa Bost. Bydd gwybodaeth bellach am hyn ar gael mor fuan â'r wythnos nesaf.

Yn achos pobl sydd wedi eu hynysu a heb help gerllaw gan y teulu neu ffrindiau, rydym yn parhau i weithio gyda DWP i edrych ar ffyrdd eraill y medrwn sicrhau y medrant gyrraedd eu cyfrifon. Gobeithiwn y bydd gennym newydd cyn hir. Yn y cyfamser, os bydd unrhyw un o'ch etholwyr yn ei chael hi'n anodd cyrraedd eu harian oherwydd eu bod wedi eu hynysu, dylent ffonio llinell gymorth POca ar 0345 722 3344 neu gysylltu â hyb cymunedol eu hawdurdod lleol am gymorth.

Torri ar wasanaethau

Bydd rhai Swyddfeydd Post yn gorfod cau yn ystod y pandemig pan fydd postfeistri yn hunanynysu neu'n mynd yn sâl eu hunain.

Pan ddigwydd hyn, dylid dangos posteri i egluro ble mae'r gangen agosaf sydd ar gael, a bydd yr oriau agor i'w cael drwy Branch Finder ar wefan ac ap Swyddfa'r Post. Caiff y wybodaeth ei diweddarau deirgwaith y dydd gan dîm penodol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i gwsmeriaid.

Hoffwn eich sicrhau ein bod ni'n gwneud popeth a fedrwn i ofalu bod gan bostfeistri'r gefnogaeth sydd ei hangen arnynt ac mae ein timau maes a'n rheolwyr ardal ar gael i'w cefnogi. Bydd yr wythnosau nesaf yn heriol ond rwyf yn sicr y byddwn - gyda'ch cymorth parhaus chi - yn medru cadw'r rhan fwyaf o'r rhwydwaith ar agor ar gyfer busnes ac i wasanaethu cymunedau yn eich etholaeth a ledled y DU.

Os bydd gennych unrhyw bryderon neu gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â'ch Rheolwr Materion Allanol Rhanbarthol, a fydd ar gael i drafod unrhyw faterion yn eich etholaeth.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Nick Read', with a long horizontal stroke underneath.

Nick Read
Prif Weithredwr y Grŵp, Swyddfa'r Post